# Cymedr, Canolrif ac Ystod 12 Ci

**Yn Guide Dogs rydym yn bridio ac yn hyfforddi cŵn sy'n helpu pobl sy'n colli golwg i fynd allan a byw'n annibynnol. Heddiw ry'n ni'n canolbwyntio ar dorllwyth diweddar o gŵn bach, 6 gwryw (bachgen) a 6 benyw (merch), a aned i'w mam, Abby, sy'n gi tywys.**



Pan anwyd cŵn bach Abby, llaeth eu mam oedd eu hunig fwyd, roedd eu llygaid ynghau, a doedden nhw ddim yn symud rhyw lawer. Pan oeddent yn 2.5 wythnos oed, roedden nhw'n bwyta mymryn bach o fwyd sych 3 x y diwrnod, a hefyd yn cael llaeth gan eu mam Yn 4 wythnos oed, dechreusant ymarfer yn yr ardd Erbyn iddyn nhw gyrraedd 6 wythnos oed, roedden nhw wedi'u diddyfnu'n llwyr (ddim yn cael eu bwydo ar laeth bellach), yn bwyta bwyd cŵn bach ac yn barod i adael eu mam.

Mae'r tablau sy'n dilyn yn dangos gwybodaeth am bwysau'r 12 ci bach o'u genedigaeth i 6 wythnos oed.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth yn nhabl 1, allwch chi gyfrifo ystod pwysau pob ci bach gwryw a llenwi'r golofn olaf yn nhabl 1?

**Tabl 1 – pwysau cŵn bach gwryw**

| Pwysau mewn gramiau | Pwysau ar enedigaeth | Pwysau Wythnos 1 | Pwysau Wythnos 2 | Pwysau Wythnos 3 | Pwysau Wythnos 4 | Pwysau Wythnos 5 | Pwysau Wythnos 6 | Ystod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arrow | 470 | 770 | 1007 | 1530 | 2240 | 2830 | 3730 | |
| Baxter | 370 | 510 | 860 | 1420 | 2000 | 2690 | 3540 | |
| Chaz | 430 | 610 | 930 | 1580 | 2090 | 2750 | 3720 | |
| Dell | 390 | 540 | 900 | 1520 | 2110 | 2730 | 3610 | |
| Elmo | 400 | 660 | 990 | 1480 | 2210 | 2820 | 3740 | |
| Ford | 490 | 650 | 1180 | 1630 | 2290 | 2880 | 4100 | |

Pa un o'r cŵn bach gwryw sydd â'r ystod pwysau isaf?

Sut allai hyn effeithio ar ei dwf a'i ddatblygiad?

Pa un o'r cŵn bach gwryw sydd â'r ystod pwysau uchaf?

Sut allai hyn effeithio ar ei dwf a'i ddatblygiad?

Pa ffactorau allai achosio'r gwahaniaethau pwysau yma rhwng y cŵn bach?

**Tabl 2 – pwysau cŵn bach benyw**

| Pwysau mewn gramiau | Pwysau ar enedigaeth | Pwysau Wythnos 1 | Pwysau Wythnos 2 | Pwysau Wythnos 3 | Pwysau Wythnos 4 | Pwysau Wythnos 5 | Pwysau Wythnos 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Goldie | 400 | 540 | 1010 | 1450 | 2150 | 2710 | 3780 |
| Inca | 360 | 520 | 910 | 1430 | 2080 | 2710 | 3550 |
| Jessie | 450 | 630 | 1080 | 1400 | 2060 | 2800 | 3900 |
| Kira | 480 | 620 | 1000 | 1480 | 2100 | 3010 | 3800 |
| Lola | 390 | 540 | 880 | 1450 | 2090 | 2840 | 3720 |
| Milly | 430 | 630 | 1040 | 1510 | 2250 | 2810 | 3750 |

Defnyddiwch y data o dabl 2 i gyfrifo Cymedr, Canolrif ac Ystod pwysau'r cŵn bach benyw o'u genedigaeth hyd at wythnos 6. Llenwch dabl 3.

**Tabl 3**

| | Cymedr | Canolrif | Ystod |
|---|---|---|---|
| Genedigaeth | | | |
| Wythnos 1 | | | |
| Wythnos 2 | | | |
| Wythnos 3 | | | |
| Wythnos 4 | | | |
| Wythnos 5 | | | |
| Wythnos 6 | | | |

Beth yw cyfartaledd pwysau'r cwn bach benyw ar eu genedigaeth?

A oes yna unrhyw gyfatebiaeth rhwng y cyfartaledd pwysau (y cymedr) a'r gwerth canol (y canolrif)?

Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am y cŵn bach?

Sut y mae'r ystod pwysau'n amrywio dros 6 wythnos y data?

Pam allai hyn fod yn bwysig i Guide Dogs?

Sut allai'r gwirfoddolwyr fod wedi gallu lleihau'r ystod pan bwyswyd y cŵn bach yn 3 wythnos oed?

Pa ffactorau allai fod wedi effeithio ar yr ystod pan gafodd y cŵn bach eu pwyso yn 5 wythnos oed?